Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Dyffryn Trannon
# Trefeglwys
# Caersws
# Powys
# SY17 5PH

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 04/06/2013**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Dyffryn Trannon ym mhentref Trefeglwys, rhyw bum milltir o dref Llanidloes, ac mae'n gwasanaethu ardal wledig iawn.

Mae dwy ffrwd ieithyddol yn yr ysgol. Mae'r ffrwd Gymraeg yn derbyn plant o ardal helaeth yn cynnwys cymunedau Llangurig, Llanidloes, Staylittle, Y Fan, Llawryglyn a Chaersws, yn ogystal â Threfeglwys ei hun. Mae'r ffrwd cyfrwng Saesneg yn gwasanaethu'r gymuned leol ac yma addysgir y Gymraeg fel ail iaith.

Ar hyn o bryd, mae 123 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, ac mae 70% ohonynt yn y ffrwd Gymraeg. Mae bron yr holl ddisgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Llanidloes ar gyfer eu haddysg uwchradd. Daw rhyw 17% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir rhywfaint o Gymraeg. Daw bron pob un o'r disgyblion o gefndir ethnig Gwyn Prydeinig.

Mae'r ysgol yn ystyried bod y disgyblion yn cynrychioli'r ystod gallu llawn. Mae rhyw 4.6% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae hynny'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Powys a chryn dipyn yn is na chyfartaledd Cymru. Mae 15% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, ac mae hynny hefyd yn is na chyfartaledd Cymru.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 2011, yn dilyn cyfnod o ansefydlogrwydd yn arweinyddiaeth yr ysgol. Ym Mehefin 2007 y cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf, a barnwyd bryd hynny bod angen gweithredu mesurau arbennig ynddi.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Dyffryn Trannon yn 2012-2013 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,705 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Powys yw £8,253 a'r lleiafswm yw £3,087. Mae Ysgol Dyffryn Trannon yn y 45fed safle o'r 99 o ysgolion cynradd ym Mhowys o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad wedi gwella'n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf;
- mae disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd. Yn benodol, mae safon llafaredd Cymraeg yn un o gryfderau'r ysgol;
- mae mwyafrif y disgyblion yn chwarae rhan weithredol yn eu dysgu a'u datblygiad eu hunain; ac
- ar draws yr ysgol, mae'r addysgu o ansawdd da yn gyffredinol.

Fodd bynnag:

- yn gyffredinol, nid yw'r ysgol yn perfformio'n dda o gymharu ag ysgolion tebyg eraill;
- nid yw disgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio ac yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn ddigonol nac yn gyson ar draws yr holl feysydd dysgu a'r pynciau; ac
- megis dechrau cael eu datblygu y mae mentrau a fabwysiadwyd yn ddiweddar i gynllunio'r cwricwlwm, ac nid yw'r ysgol wedi arfarnu eu heffaith ar ddeilliannau disgyblion eto.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae disgwyliadau uchel gan y pennaeth ac arweinwyr eraill, ac maent yn ymateb yn briodol i achosion o danberfformio;
- mae'r uwch dîm rheoli yn dadansoddi data yn dda i ddarparu sail gadarn ar gyfer monitro perfformiad ar draws yr ysgol;
- mae aelodau'r corff llywodraethol yn ymwneud yn weithredol â'r ysgol;
- yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi rhoi trefniadau diwygiedig ar waith ar gyfer hunanarfarnu, sy'n gwella ei gallu i nodi ei chryfderau a'r meysydd hynny y mae angen iddi eu gwella; ac
- mae'r ysgol yn monitro ansawdd yr addysgu yn effeithiol.

## Argymhellion

A1 Gwella safonau i sicrhau bod perfformiad yr ysgol yn cymharu'n fwy ffafriol ag ysgolion tebyg eraill

A2 Datblygu gallu disgyblion i ddefnyddio'u medrau rhifedd yn effeithiol ar draws yr holl feysydd dysgu a'r pynciau

A3 Gwella presenoldeb disgyblion

A4 Monitro'n fanwl weithrediad y trefniadau a fabwysiadwyd yn ddiweddar ar gyfer cynllunio profiadau dysgu'r disgyblion ac arfarnu eu heffaith

A5 Sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau monitro arweinwyr y cwricwlwm yn cael eu gweithredu'n effeithiol

A6 Sicrhau bod meysydd a nodwyd ar gyfer eu gwella yn cael eu blaenoriaethu yn fwy effeithiol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n dda ar eu hathrawon, yn rhannu syniadau ac yn cyfrannu'n llwyddiannus mewn trafodaethau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gywir i gyfarwyddiadau ac yn ymateb i gwestiynau yn briodol yn unol â'u hoed a'u gallu.

Mae safon llafaredd Cymraeg yn dda ac yn un o gryfderau'r ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn dysgu strwythur brawddegau a geirfa Gymraeg yn gyflym, a daw'r rhan fwyaf ohonynt yn hyderus yn defnyddio'r Gymraeg mewn amryw o sefyllfaoedd. Mae'r disgyblion yn adeiladu'n dda ar hyn wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol, ac erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, daw llawer ohonynt yn hyderus i gynnal sgwrs gydag oedolion yn ogystal â'u cyfoedion yn y ddwy iaith. Mae ychydig o'r disgyblion mwy galluog yn trafod eu gwaith yn aeddfed, gan ddefnyddio geirfa estynedig yn effeithiol.

Mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae bron yr holl ddisgyblion yn dangos eu bod yn mwynhau darllen. Mae'r mwyafrif ohonynt yn darllen yn glir ac yn rhugl, ac mae llawer yn trafod llyfrau yn frwdfrydig. Erbyn i ddisgyblion gyrraedd diwedd cyfnod allweddol 2, gall llawer o ddisgyblion hŷn gasglu gwybodaeth yn llwyddiannus o amrywiaeth o ffynonellau a'i chyflwyno'n effeithiol mewn ffurfiau gwahanol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae medrau ysgrifennu'r mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Gallant strwythuro eu syniadau yn glir gan ddefnyddio amrywiaeth o frawddegau, a dangosant ddealltwriaeth gadarn o atalnodi. Caiff y medrau hyn eu datblygu ymhellach wedyn ar draws yr holl feysydd dysgu yn y ddwy iaith. Mae'r disgyblion mwy galluog yn ysgrifennu'n annibynnol, ac yn estynedig, gan ddefnyddio geirfa eang yn effeithiol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae dealltwriaeth dda gan y rhan fwyaf o ddisgyblion o ffurfiau ysgrifennu gwahanol, ac fe'u defnyddiant yn hyderus yn y ddwy iaith ac ar draws y pynciau. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o strwythur brawddegau, ac mae ychydig ohonynt yn ysgrifennu'n estynedig gan ddefnyddio geirfa eang yn effeithiol. Mae mwyafrif o'r disgyblion yn defnyddio amrywiaeth o atalnodi yn gywir ond nid yw hyn yn gyson ym mhob dosbarth. Yn gyffredinol, mae sillafu yn dda, mae llawysgrifen wedi'i ffurfio'n dda a chaiff gwaith ei gyflwyno'n ddestlus. Mae safon ysgrifennu disgyblion mewn Cymraeg ail iaith yn datblygu'n briodol.

Mae disgyblion yn defnyddio'u medrau meddwl yn dda ac erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae bron pob un ohonynt yn dod yn ddysgwyr annibynnol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio'r medrau hyn yn effeithiol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Fodd bynnag, nid yw disgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio ac yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn ddigonol nac yn gyson ar draws yr holl feysydd dysgu a'r pynciau.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r disgyblion mwy galluog yn gwneud cynnydd priodol.

Gan mai 2012 oedd y flwyddyn gyntaf ar gyfer asesiadau o ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen, nid oes unrhyw ddata ar gael i gymharu tueddiadau mewn perfformiad dros gyfnod. Yn 2012, roedd cyfran y disgyblion yn cyflawni'r deilliant disgwyliedig (deilliant 5+) ar gyfer dangosydd deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion a Chymru. Fodd bynnag, o gymharu ag ysgolion eraill â chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd yr ysgol yn y 50% isaf o'r ysgolion hyn ar gyfer pob agwedd ar ddysgu, ac eithrio medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn Gymraeg, lle mae yn y 50% uchaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad wedi gwella'n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, yn 2012, roedd cyfran y disgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn asesiadau athrawon ar ddiwedd Blwyddyn 6 ar gyfer y dangosydd pwnc craidd yn parhau'n is na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion a Chymru. O gymharu ag ysgolion eraill yng Nghymru sydd â chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd yr ysgol yn y 25% isaf. Felly y bu hi dros y tair blynedd flaenorol hefyd.

Yn gyffredinol, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'n uwch na'r disgwyl ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 wedi bod yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu ac ar gyfer ysgolion tebyg eraill yng Nghymru dros y pedair blynedd diwethaf.

**Lles: Da**

Mae Ysgol Dyffryn Trannon yn ysgol hapus lle bydd disgyblion yn gofalu am ei gilydd mewn amgylchedd gofalgar. Mae agweddau cadarnhaol gan y disgyblion at gadw'n iach a diogel, ac maent yn deall pwysigrwydd bwyta deiet iach. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac maent yn gwybod y gallant droi yn hawdd at y staff a'u cyd-ddisgyblion am gymorth.

Mae cyfradd bresenoldeb yr ysgol ar gyfer 2011-2012 yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ond islaw cyfartaledd y teulu o ysgolion. O gymharu ag ysgolion tebyg eraill, mae yn y 25% isaf o ysgolion felly, ac mae wedi bod yn y 25% isaf am dair o'r pedair blynedd flaenorol.

Mae safon ymddygiad yn dda ar draws yr ysgol mewn gwersi, ar y coridorau ac yn ystod amser egwyl. Mae'r disgyblion yn ymddwyn yn aeddfed ac yn gyfrifol, gan ddangos parch a gofal at eraill. Mae disgyblion hŷn yn gofalu am ddisgyblion iau o'u gwirfodd yn ystod amserau chwarae.

Mae cyngor ysgol gweithgar a sefydledig gan yr ysgol, ac mae pob un o'r aelodau yn deall eu cyfrifoldebau yn dda. Teimlant fod eu hawgrymiadau yn cael eu gwerthfawrogi a bod ganddynt ran werthfawr i'w chwarae yng nghymuned yr ysgol. Maent wedi hyrwyddo gwelliannau yn llwyddiannus, fel newidiadau diweddar i wisg yr ysgol, ac maent yn cyfarfod yn rheolaidd â'r staff ac aelodau'r corff llywodraethol i drafod eu syniadau. Mae disgyblion yn cyfrannu'n frwdfrydig hefyd at eu lles drwy ymwneud â'r pwyllgor eco a'u cyfrifoldebau fel Cenhadon Ysgol Iach.

Mae mwyafrif y disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu ac mae bron pob un ohonynt yn ymwneud yn weithgar â chynllunio testunau newydd. Maent yn mabwysiadu strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn dda, ac yn cymryd rhan weithgar yn eu dysgu a'u datblygiad eu hunain.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol wedi nodi'n glir yr angen i wella darpariaeth ar draws yr ysgol, ac mae wedi adolygu ei chynlluniau cwricwlwm yn unol â hynny. Yn ddiweddar, aeth ati i fabwysiadau cynllun gwaith thematig newydd, sy'n nodi cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn glir ar draws yr holl feysydd dysgu a'r pynciau. Fodd bynnag, megis dechrau cael eu datblygu y mae'r mentrau hyn.

Mae athrawon ar draws yr ysgol yn cynllunio gyda'i gilydd yn effeithiol i ddarparu ystod o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordebau'r disgyblion. Mae hyn yn sicrhau parhad a dilyniant yn eu dysgu.

Mae'r ysgol yn defnyddio data yn dda i nodi'r disgyblion mwy galluog a dawnus. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth a lefel yr her ar gyfer y disgyblion hyn wedi'u datblygu'n ddigonol ac nid ydynt yn gyson ym mhob dosbarth.

Mae disgyblion yn cyfranogi mewn ystod dda o weithgareddau allgyrsiol i gyfoethogi eu dysgu. Mae ymweliadau diweddar â Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth a Llyn Clywedog yn enghreifftiau o'r modd y mae'r ysgol yn cynllunio cyfleoedd o'r fath yn effeithiol.

Mae darpariaeth dda ar gyfer y Gymraeg. Mae'r ysgol yn hyrwyddo ac yn dathlu ymdeimlad o hunaniaeth Gymreig yn llwyddiannus i bob un o'r disgyblion drwy ystod o weithgareddau, fel yr eisteddfod ac ymweliadau â Llangrannog a chanolfan yr Urdd yng Nghaerdydd.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o ddatblygu cynaliadwy yn dda drwy waith ei phwyllgor eco. Mae hyn wedi galluogi disgyblion i chwarae rhan weithgar mewn datblygu tir yr ysgol fel amgylchedd naturiol i'w fwynhau, sy'n hyrwyddo bywyd gwyllt. Mae'r ysgol yn gweithredu'n gynaliadwy i ailddefnyddio ac ailgylchu, ac mae'n monitro effaith paneli solar yr ysgol. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion i ddatblygu'u dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang drwy eu gweithgareddau cwricwlaidd a thrwy fentrau elusennol sy'n cefnogi sefydliadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

**Addysgu: Da**

Mae gwersi yn cynnwys amcanion clir sy'n briodol i oedrannau a galluoedd y disgyblion, ac maent yn symud ar gyflymder addas. Mae bron pob un o'r staff yn dangos perthynas weithio dda gyda disgyblion, ac maent yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda. Defnyddia'r athrawon ystod o adnoddau yn dda, a defnyddiant staff cymorth yn effeithiol i helpu unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Yn y mwyafrif o wersi, mae'r athrawon yn defnyddio technegau holi effeithiol sy'n annog disgyblion i

feddwl drostynt eu hunain. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith bob amser yn ddigon gwahaniaethol ar gyfer pob gallu, ac nid yw staff yn herio disgyblion mwy galluog yn ddigon da bob tro.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae disgyblion yn trafod amcanion dysgu a meini prawf llwyddo ar ddechrau pob gwers, ac yn eu hadolygu'n effeithiol i adnabod cynnydd yn eu dysgu. Mae'r staff yn rhoi adborth adeiladol a manwl i ddisgyblion trwy farcio gwaith ysgrifenedig, ac mae hyn yn galluogi disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn gwneud a beth sydd angen iddynt wneud i wella. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn dda i gefnogi cynnydd disgyblion.

Mae nosweithiau rhieni ac adroddiadau ysgrifenedig yn rhoi gwybodaeth briodol i rieni am gynnydd eu plant, ac maent yn bodloni'r gofynion statudol.

Yn ddiweddar, aeth yr ysgol ati i fabwysiadu system briodol i olrhain a dadansoddi data ar berfformiad disgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio deilliannau asesiadau yn ddigon cadarn eto i wahaniaethu ar gyfer pob gallu ac i herio disgyblion yn briodol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ystod dda o bolisïau priodol yn eu lle ar gyfer hyrwyddo byw'n iach a lles y disgyblion. Caiff cyfranogiad disgyblion yn eu hysgol a'r gymuned ehangach ei annog. Mae'r ysgol wedi cyflawni cam tri y Wobr Ysgolion Iach ac mae ei Chenhadon Ysgol Iach yn falch o'i chyflawniadau. Cynigir llawer o gyfleoedd i ddisgyblion gyfranogi mewn amrywiaeth o weithgareddau defnyddiol yn yr ysgol a thrwy ei darpariaeth allgyrsiol.

Mae staff yn monitro lles disgyblion yn briodol, ac yn gyffredinol, maent yn gweithredu'n gyflym ac yn sensitif mewn ymateb i bryderon. Caiff ymdeimlad o helpu eraill ei hyrwyddo gan yr ysgol, ac mae'n meithrin cyfeillgarwch a pharch. Mae'n llwyddiannus o ran hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o ystod eang o asiantaethau arbenigol i wella'r cymorth ac arweiniad y mae'n eu rhoi i ddisgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Defnyddir data asesu yn dda gan yr ysgol i nodi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gyflym, ac mae'n defnyddio strategaethau ymyrryd yn effeithiol. O ganlyniad, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da. Mae'r cynlluniau addysg unigol o ansawdd da, a chânt eu hadolygu'n briodol. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd addas i rieni i wneud sylwadau am gynnydd disgyblion. Nid yw'r ysgol, fodd bynnag, yn rhannu cynlluniau addysg unigol gyda rhieni fel arfer.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos tawel a gofalgar gan yr ysgol. Mae'n cynnig amgylchedd croesawgar a chefnogol sy'n cynnwys pob disgybl yn gyfartal. Caiff disgyblion eu hannog i fod yn

ystyriol o'i gilydd, ac yn gyffredinol, caiff eu hunan-barch ei feithrin yn llwyddiannus mewn amgylchedd cefnogol. O ganlyniad, mae dealltwriaeth dda gan ddisgyblion o'u cyfrifoldeb i drin pobl â pharch.

Mae safle ac adeiladau'r ysgol yn cael eu defnyddio'n dda at anghenion pob un o'r disgyblion. Mae amrywiaeth o fyrddau arddangos yn creu amgylchedd lliwgar ac ysgogol ar draws y safle cyfan. Darparant wybodaeth ddefnyddiol am weithgareddau'r ysgol, ac maent yn dathlu cyflawniadau, profiadau a gwaith y disgyblion. Mae'r ardaloedd dysgu tu allan wedi'u datblygu'n dda. Mae disgyblion yr ysgol wedi'u cynnwys yn llawn wrth ddatblygu'r ardal chwarae yn yr awyr agored, sy'n darparu amrywiaeth dda iawn o weithgareddau. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newydd o safon uchel, ac mae pob rhan o'r ysgol yn lân ac yn cael eu cynnal yn dda.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gweledigaeth glir gan yr ysgol, y mae wedi'i rhannu gydag athrawon, disgyblion a rhieni. Mae disgwyliadau uchel gan y pennaeth ac arweinwyr eraill, ac maent yn ymateb yn briodol i achosion o danberfformio. Mae'r uwch dîm rheoli yn dadansoddi data yn dda i ddarparu sail gadarn ar gyfer monitro perfformiad ar draws yr ysgol. Mae cyfarfodydd staff wythnosol yn cynnwys ffocws ar flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer datblygu. Mae hyn yn helpu staff i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o'u rolau mewn perthynas â strategaethau'r ysgol a'u cyfrifoldebau i wella safonau. Mae swydd-ddisgrifiadau diweddar gan bob aelod o staff, ac maent yn gwbl ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Fodd bynnag, nid yw eu cyfrifoldebau fel cydlynwyr pwnc wedi'u gweithredu'n llawn.

Mae aelodau o'r corff llywodraethol yn ymwneud yn weithredol â'r ysgol. Maent yn ymweld â dosbarthiadau yn rheolaidd, ac maent wedi arsylwi gwersi. Mae hyn yn cynyddu eu dealltwriaeth o weithgareddau'r ysgol o ddydd i ddydd a'u gwybodaeth uniongyrchol am faterion sy'n berthnasol i'w cyfrifoldebau. Mae'r pennaeth yn rhoi dadansoddiad buddiol o ddata i'r corff llywodraethol, ac mae'r llywodraethwyr yn fwy a mwy ymwybodol o'r materion sy'n codi ohono. Mae ganddynt ddealltwriaeth resymol o sut y mae'r ysgol yn perfformio o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, nid yw'r corff llywodraethol yn ymwneud yn ddigonol a threfniadau'r ysgol ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio gwelliant.

Mae'r ysgol yn gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol. Mae wedi sefydlu mentrau asesu ar gyfer dysgu yn dda, ac mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn datblygu'n briodol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Yn ddiweddar, aeth yr ysgol ati i roi trefniadau diwygiedig ar waith ar gyfer hunanarfarnu, sy'n gwella ei gallu i nodi ei chryfderau a'r meysydd hynny y mae angen iddi eu gwella. Mae'n monitro agweddau ar y ddarpariaeth, fel addysgu, yn effeithiol, ac yn dadansoddi data yn ymwneud â pherfformiad yn dda. Fodd bynnag, nid yw wedi mynd ati eto i roi'r trefniadau monitro sy'n gysylltiedig â rolau arweinwyr

y cwricwlwm ar waith. Mae hyn yn golygu nad yw rhai agweddau ar waith yr ysgol yn cael eu monitro'n briodol. Mae trefniadau effeithiol yn eu lle i nodi barnau disgyblion drwy gyngor yr ysgol. Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth lawn hefyd i sylwadau ac argymhellion yn deillio o ymweliadau monitro gan swyddogion yr awdurdod lleol.

Yn gyffredinol, mae'r meysydd i'w gwella yn cysylltu'n briodol â chynllun datblygu'r ysgol. Nid yw'r rhain wedi cael eu blaenoriaethu'n briodol, fodd bynnag. O ganlyniad, mae cynlluniau gwella yn cynnwys gormod o agweddau na all yr ysgol fynd i'r afael â nhw yn effeithiol o fewn yr amser a neilltuwyd iddynt.

Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn ymwneud â chymunedau dysgu proffesiynol yn yr ysgol a thu hwnt. Mae'r rhan fwyaf o'r rhwydweithiau hyn wedi cyfrannu'n dda at ddatblygu arfer yn yr ystafell ddosbarth, a lle bo'n berthnasol, maent wedi cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu medrau arwain a rheoli.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol gysylltiadau effeithiol â gwasanaethau cymorth yr awdurdod lleol sydd wedi helpu i wella dysgu a lles disgyblion. Mae trefniadau partneriaeth gyda'r feithrinfa ar y safle, a'r ddarpariaeth "Ti a Fi" a sefydlwyd yn ddiweddar, yn datblygu'n dda.

Mae'r trefniadau pontio gyda'r ysgol uwchradd leol yn effeithiol. Maent yn cynnwys cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion Blwyddyn 6 ymweld â'r ysgol uwchradd ac i integreiddio gyda disgyblion o ysgolion lleol eraill yn ystod diwrnod o weithgareddau awyr agored. Mae cysylltiadau'r ysgol ag ysgolion lleol eraill wedi cynnig cyfleoedd defnyddiol i gydweithio ar ddatblygiadau'r cwricwlwm sydd wedi bod o fudd i'r ysgol. Mae'r disgyblion yn elwa ar gyfraniadau rheolaidd gan y ficer lleol at addoli ar y cyd.

Mae'r bartneriaeth â rhieni yn dda yn gyffredinol. Mae'r ysgol yn elwa ar amrywiaeth o weithgareddau codi arian y mae rhieni'n cyfrannu'n dda atynt.

Ceir cysylltiadau da rhwng yr ysgol a'r coleg lleol, ac mae'r ysgol yn cyfrannu'n rheolaidd at hyfforddiant a datblygiad ei fyfyrwyr.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r rheolaeth ar adnoddau yn gadarn yn gyffredinol. Mae'r defnydd a wneir o staff addysgu a staff cymorth yn cyfrannu'n effeithiol at ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol. Yn gyffredinol, gwna athrawon ddefnydd da o amser cynllunio, paratoi ac asesu, ac mae'r ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol. Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i reoli perfformiad staff addysgu a staff cymorth. Mae amcanion yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau'r ysgol gyfan ac anghenion datblygu unigol.

Mae'r ysgol yn cysylltu ei chyllideb yn briodol â blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol ac mae'n ei monitro'n dda. Llwyddodd yr ysgol i leihau ei diffyg ariannol yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian o ran deilliannau'r disgyblion.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Gan mai 2012 oedd y flwyddyn gyntaf ar gyfer asesiadau o ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen, nid oes unrhyw ddata ar gael i gymharu tueddiadau dros gyfnod.

Yn 2012, roedd cyfran y disgyblion yn cyflawni'r deilliant disgwyliedig (deilliant 5+) ar gyfer dangosydd deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion a Chymru. Roedd hyn yn wir hefyd ar gyfer medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn Gymraeg, ar gyfer datblygiad mathemategol ac ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. Fodd bynnag, ar gyfer medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn Saesneg, roedd cyfran y disgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion a Chymru.

O gymharu ag ysgolion tebyg eraill ar sail canran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd yr ysgol yn y 50% isaf o'r ysgolion hyn ar gyfer pob agwedd ar ddysgu, ac eithrio medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn Gymraeg, lle mae yn y 50% uchaf.

Roedd cyfran y disgyblion yn cyflawni deilliant uwch na'r disgwyl (deilliant 6+) yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu mewn iaith, lythrennedd a chyfathrebu yn Saesneg, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. O'i gymharu ag ysgolion tebyg ar sail y nifer sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, roedd y patrwm yn debyg.

Yn 2012, yng nghyfnod allweddol 2, roedd cyfran y disgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn asesiadau athrawon ar ddiwedd Blwyddyn 6 ar gyfer y dangosydd pwnc craidd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion ac yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Roedd yr un patrwm i'w weld hefyd ar gyfer Saesneg, Cymraeg a mathemateg. Mewn gwyddoniaeth, fodd bynnag, roedd y gyfran yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu a Chymru. Pan gaiff y gyfran sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer y dangosydd pwnc craidd ei chymharu ag ysgolion tebyg eraill ar sail y nifer sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, roedd yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg. Roedd hyn yn wir hefyd ar gyfer Saesneg, Cymraeg a mathemateg. Ar gyfer gwyddoniaeth,roedd yr ysgol yn y 50% isaf o ysgolion tebyg.

Mae perfformiad wedi gwella yn gyffredinol yn y dangosydd pwnc craidd a phob un o'r pynciau craidd dros y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae perfformiad dros y cyfnod hwn wedi bod yn y 25% isaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg ar sail prydau ysgol am ddim. Gwelwyd eithriadau mewn Cymraeg a gwyddoniaeth yn 2010 a 2011 pan roedd yr ysgol yn y 25% uchaf.

Roedd cyfran y disgyblion yn cyflawni lefel uwch na'r disgwyl ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2012 yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu a Chymru ym mhob pwnc. Bu hyn yn wir yn gyffredinol dros y pedair blynedd diwethaf.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Derbyniwyd 55 o ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr. Dywed pob un o'r disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn nodi bod yr ysgol yn eu haddysgu sut i gadw'n iach, a bod llawer o gyfleoedd iddynt wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Teimla bron pob un o'r disgyblion hefyd eu bod yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn pryderu neu'n poeni, a bod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. Teimla lleiafrif fod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu bwrw ymlaen â'u gwaith, ac mae ychydig iawn o ddisgyblion yn nodi nad yw bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Yn gyffredinol, mae'r ymatebion ychydig islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion eraill yng Nghymru.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd 29 o ymatebion i'r holiadur i rieni. Mae bron pob un o'r rhieni yn nodi bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol, bod y disgyblion yn ymddwyn yn dda a'u bod yn cael eu hannog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Cred pob un o'r rhieni fod y staff yn disgwyl i'w plant weithio'n galed a rhoi o'u gorau. Dywed y rhan fwyaf o rieni fod eu plant yn hoffi'r ysgol a'u bod yn gwneud cynnydd da. Dywed y rhan fwyaf hefyd fod yr addysgu yn dda a bod eu plant wedi cael cymorth i ymgartrefu'n dda wrth ddechrau yn yr ysgol.

Dywed pob un o'r rhieni fod yr ysgol yn helpu eu plentyn i aeddfedu ac ysgwyddo cyfrifoldeb. Dywedant hefyd fod eu plentyn yn cael ei baratoi/pharatoi yn dda i symud ymlaen i'r ysgol nesaf. Mae ychydig o rieni yn nodi nad ydynt yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â mynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem. Mae ychydig ohonynt yn nodi hefyd nad ydynt yn deall gweithdrefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

Dywed llawer o rieni bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys gwibdeithiau neu ymweliadau. Dywed llawer ohonynt hefyd fod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. Dywed llawer o rieni bod y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n dweud eu bod yn fodlon â'r ysgol, at ei gilydd. Fodd bynnag, dywed hanner y rhieni nad ydynt yn cael gwybodaeth yn gyson am gynnydd eu plentyn. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn llai cadarnhaol ar gyfer llawer o agweddau na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion yng Nghymru.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Iwan Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Anwen Griffith | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Rhian Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Bethan Bleddyn | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.